

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk

Clerc: Jane Jenkins, 2 Talybont, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1UA

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 10.12.25 - 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwrl

Presennol: Geraint Edwards - Cadeirydd (GE), Keith Carroll – Is Gadeirydd (KC), Geraint Micah (GM), Ian Williams (IW), Huw Davies (HD), Louise Hughes – Cyngorydd Sirol (LH), a Jane Jenkins (Clerc)

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Meg Griffiths, David Griffiths and Cath Severn

2a **Datgan Diddordeb:** Dim.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **12.11.25** yn gywir.
Cynnig: KC Eiliwyd: GM Arwyddwyd: GE

4. Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (12.11.25):

1. Diweddariad ar reiliau'r cae chwarae gan KC a CS

Diweddariad wedi'i ddarparu i'r Clerc gan CS i hysbysu ein bod yn dal i aros am baent ac mae'n debygol y bydd angen 14 tun bach arnom gan fod rheiliau ochr dde'r cae chwarae yn hirach na'r chwith. Darperir anfoneb unwaith y bydd y paent wedi cyrraedd.

PENDERFYNWYD: Cytundeb unfrydol gan nad yw'r cyfarfod nesaf tan fis Chwefror, i siec wedi'i llofnodi gael ei gadael gyda'r Clerc er mwyn i'r taliad gael ei wneud ar unwaith, ar ôl derbyn yr anfoneb, os bydd y paent yn cyrraedd cyn y cyfarfod hwnnw.

2. Penderfyniad Sunbeach

Nodwyd – cadarnhaodd yr holl Gynghorwyr eu bod wedi derbyn yr hysbysiad o'r penderfyniad.

3. Diweddariad ar "Lwybr yr Arfordir" (LH)

Dim byd i'w adrodd. Roedd LH wedi derbyn cydnabyddiaeth i'w e-bost ond nid oedd wedi clywed dim byd arall.

4. E-bost gan Gyngor Gwynedd ynglyn a Bron Rhiw

Nodwyd.

5. a) E-bost gan Traffiq ynghlyn a A493 Llwyngwrl

b) E-bost gan Go Safe ynglyn a A493 Llwyngwrl

Nodwyd. Clerc yn datgan ein bod yn debygol o glywed mwy unwaith y bydd Go Safe wedi ymchwilio cŵyn.

6. Diweddariad ar Hawl Tramwy

Clerc yn cadarnhau bod llythyr e-bost wedi'i anfon at Iwan ap Trefor ond dim ymateb felly anfonwyd e-bost dilynol hefyd. Cynghorwyr yn awgrymu anfon llythyr pellach gan gopïo Steffan Jones a Daffyd Gibbard.

GWEITHRED: Y Clerc i anfon llythyr pellach.

7. Diweddariad ar Goed Nadolig

Mae'r ddwy goeden bellach yn eu lle. Diolchodd GE i GM am gasglu coeden Llwyngwrl ac i bawb arall a helpodd i'w codi. Y Clerc yn hysbysu nad oes anfoneb wedi'i derbyn eto ond ei bod wedi cael ei hymholi.

PENDERFYNWYD: Cytuniad unfrydol gan nad yw'r cyfarfod nesaf tan fis Chwefror i adael siec wedi'i llofnodi gyda'r Clerc er mwyn gallu gwneud taliad ar unwaith ar ôl derbyn yr anfoneb.

8. Diweddariad ar y biniau ailgylchu ger Gwastagoed

GE yn cadarnhau bod biniau ailgylchu newydd wedi cael ei gosod ar y safle.

5. Gohebiaeth wedi eu derbyn:

E-bost gan y Comisiwn Elusennau yn gofyn am y ffurflen flynyddol ddiweddaraf wedi'i chwblhau ynghyd â'r holl ffurflenni blynyddol sy'n weddill, a gwybodaeth ymddiriedolwyr ar gyfer Cae Chwarae Llwyngwrl.

Trafodaethau ynghylch sut y sefydlwyd yr Elusen a pham – dim atgof gan y Cyngorwyr a dryswch ynghylch pam mae'r Cyngor Cymuned bellach wedi derbyn nodyn atgoffa ynghylch y ffurflen flynyddol. Cofiodd GE fod y cae chwarae wedi'i roi i'r pentref yn wreiddiol, a bod grŵp yn gofalu amdano ond ar ryw adeg, roedd wedi dod i feddiant y Cyngor Cymuned ac yn awr yn cael ei drin fel ased y Cyngor Cymuned gyda'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am ei gynnal a'i gadw. Nid oes unrhyw incwm o'r cae chwarae. Nid oedd GE yn ymwybodol pam ei fod wedi'i gofrestru fel Elusen ond cofiodd fod Clerc blaenorol - o flynyddoedd lawer yn ôl - yn gorfod delio â mater tebyg. Gofynnodd y Cyngorwyr i'r Clerc ffonio'r Comisiwn Elusennau, a cheisio cael mwy o wybodaeth, a gellid trafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf - Mis Chwefror.

CAM GWEITHREDU: Y Clerc i ffonio'r Comisiwn Elusennau.

2. E-bost gan Chris Lawrence, Ymatebwyr Cyntaf yn hysbysu bod rhodd o £1,000 wedi'i rhoi i'r Cyngor Cymuned i gynorthwyo gyda chynnal a chadw diffibrilwyr y pentref.

Cadarnhaodd y Clerc fod taliad wedi'i wneud ond nad oedd yn ymddangos ar y datganiad banc eto, y mis hwn.

PENDERFYNWYD: Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Chris Lawrence yn diolch i'r Ymatebwyr Cyntaf am eu rhodd.

CAM GWEITHREDU: Y Clerc i anfon llythyr.

3. E-bost gan Cyngor Gwynedd ynglyn a'r Partneriaeth Toileddau – gyda'r Cyngor Cymuned

Y Clerc yn hysbysu am y sefyllfa bresennol gyda hyn, a gan fod nifer o Gynghorau Cymuned eraill hefyd wedi gosod eu praesept ar gyfer y flwyddyn nesaf ar eu ffigur blynyddol cyfredol, fod hyn yn cael ei adolygu. Roedd llawer o Gynghorau wedi anfon llythyrau yn nodi bod eu cyllidebau eisoes wedi'u gosod ac yn gofyn i brisiau'r flwyddyn nesaf aros yr un fath ac i'r cynnydd ddechrau'r flwyddyn ganlynol.

PENDERFYNWYD: Cytundeb unfrydol i anfon llythyr at Gyngor Gwynedd (adran Partneriaeth Toileddau) yn gofyn am i'r cynnydd gael ei ohirio am flwyddyn gan fod y gyllideb eisoes wedi'i pharatoi.

CAM GWEITHREDU: Y Clerc i anfon llythyr i Gyngor Gwynedd.

4. Dyddiadau hyfforddi hyd at Fawrth 2026

Nodwyd. Gofynnodd GE i IW a HD edrych ar yr hyfforddiant "Cod Ymddygiad". Y Clerc yn hysbysu bod yr holl leodd am ddim yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd a byddai'r gost fesul sesiwn yn £42, llai bwsari o £20, felly £22.

6. Materion Cynllunio: Dim.

7. Materion Ariannol:

- a) Adroddiad Ariannol **Mis Tachwedd 2025** wedi ei gymeradwyo yn gywir.

Cynnig: HD **Eiliwyd:** IW **Arwyddwyd:** GE

2. Anfonebau/Taliadau :

Cyflog a chostau'r Clerc (Tachwedd a Rhagfyr), paent y cae chwarae, HMRC, Coeden Nadolig Rhoddwyd gais am daliad ychwanegol am eitemau i'r Goeden Nadolig i'r Clerc – gan HD.

PENDERFYNWYD: Cytundeb unfrydol i wneud yr holl daliadau a llofnodi sieciau. Taliad am y paent a'r Goeden Nadolig wedi'i gymeradwyo ond dim anfonebau eto fel y manylwyd uchod yn 4.1 a 4.7.

CAM GWEITHREDU: Y Clerc i wneud y taliadau.

3. Diweddariad ar yr Archwiliad

Dim byd i'w adrodd.

4. Cyllideb/Praesept ar gyfer 26/27

Treuliwyd amser yn mynd trwy'r ddogfen ddrafft a baratowyd gan y Clerc, a gwnaed sawl gwelliant yn seiliedig ar arian y mae'r Cyngor Cymuned wedi'i neilltuo ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD: Cynnig i osod y Praesept ar gyfer 2026/27 ar £15,150, a fydd yn gweld cynnydd i Band D – cynnydd o £2.98.

Cynigiwyd: GE **Eiliwyd:** IW

CAM GWEITHREDU: Y Clerc i ddiwygio'r ddogfennaeth a gwneud cais am y Praesept i Gyngor Gwynedd.

8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr: Dim.

9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol:

Mae LH yn dweud ei bod wedi cael mis prysur ac wedi treulio amser allan yn y gymuned yn casglu sbwriel, dadflocio draeniau a glanhau cyffredinol o fewn y ward. Heddiw, mae hi wedi mynychu cyfarfod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol lle trafodwyd nifer o eitemau h.y. archwilio, cynhyrchu incwm, treialu camerâu APR ym meysydd parcio'r Parc Cenedlaethol, polisi Urddas yn y Gwaith, achos llys Fodden ac Erthygl 4.

Mae LH yn dweud bod Llynnoedd Cregennan wedi cael eu rhoi yn ôl i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Mae y premiwm ail gartref wedi'i godi i 150% ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.

10. Unrhyw Fater Arall:

IW yn sôn bod y blwch blodau o dan arwydd Llwyngwrl (ochr Fairbourne y pentref) yn flêr ac yn cwmpo'n ddarnau.

Credir bod CS wedi bod yn rhan o'r grwp o osod y blwch blodau - felly dylai'r Clerc sefydlu a yw hynny'n gywir ac os yn wir - gofyn iddo ei symud.

Hysbysodd y Clerc y Cyngor fod cais cynllunio ar gyfer Dolgoed, Llwyngwrl, wedi'i dynnu'n ôl.

Gofynnodd GE am gymorth i dynnu'r Coed Nadolig i lawr - dros benwythnos 3ydd o Ionawr.

Cyfarfod wedi dod i ben am 9.25yh.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Nos Fercher - 11.02.26 am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwrl

Arwyddwyd

R G Edwards

Cadeirydd Dyddiad 11/02/2026